



**TYSTYSGRIF ADDYSG GYFFREDINOL
GENERAL CERTIFICATE OF EDUCATION**

2009 - 2010

CYMRAEG AIL IAITH

**PAPURAU CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL
CYNLLUNIAU MARCIO ENGHREIFFTIOL**

Cynnwys

Tudalen

PAPURAU CWESTIWN ENGHREIFFTIOL

CA1 – Arholiad Llafar – Y Ffilm a Llafaredd	5
CA2 – Asesiad Mewnol o Waith Cwrs Ysgrifenedig	11
CA3 – Papur Ysgrifenedig – Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth	15
CA4 – Arholiad Llafar – Y Ddrama a Llafaredd	19
CA5 – Papur Ysgrifenedig – Y Stori Fer a Thrawsieithu	23
CA6 – Papur Ysgrifenedig – Defnyddio'r Iaith a Gwerthfawrogi Barddoniaeth	27

CYNLLUNIAU MARCIO ENGHREIFFTIOL

CA1 – Arholiad Llafar –Y Ffilm a Llafaredd	31
CA2 – Asesiad Mewnol o Waith Cwrs Ysgrifenedig	37
CA3 – Papur Ysgrifenedig – Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth	39
CA4 – Arholiad Llafar – Y Ddrama a Llafaredd	47
CA5 – Papur Ysgrifenedig – Y Stori Fer a Thrawsieithu	51
CA6 – Papur Ysgrifenedig – Defnyddio'r Iaith a Gwerthfawrogi Barddoniaeth	57

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

CYMRAEG: AIL IAITH CA1

Y FFILM A LLAFAREDD

(Arholiad Llafar)

NODIADAU I ATHRAWON A CHWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL

(Tua ½ awr)

Nodiadau i Athrawon

- Aseiad allanol yw hwn. Er hynny dylai athrawon asesu cyrhaeddiad disgybl yn fewnol yn ystod y flwyddyn.
- Bydd arholwr allanol yn ymweld â phob canolfan yn ystod tymor yr Haf.
- Defnyddir aseiad y ganolfan fel canllaw i gynorthwyo'r arholwr, ond gan yr arholwr yn unig y bydd yr hawl i bennu marciau terfynol yr ymgeiswyr.
- Arholir yr ymgeiswyr mewn paru/grwpiau heb fod yn fwy na thri ymgeisydd.
- Dewisir y grwpiau yn ôl gallu'r ymgeiswyr neu ddoethineb yr arholwr. Lle nad oes ond un ymgeisydd arholir ef yn unigol gan yr arholwr. Lle ceir grwpiau o dri bydd yr arholiad yn parhau am tua hanner awr. Dyfernir marciau allan o 60.

Swyddogaeth yr arholwr

A. Cynhesu'r disgyblion trwy drafod y diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu trafod y meysydd canlynol ar ôl ymwneud â nhw'n rheolaidd yn ystod y cwrs:

- y theatr
- darlledu (radio a theledu)
- ffilm e.e. Solomon a Gaenor, Y Dylluan Wen, Branwen, Gadael Lenin.

Cwestiynau enghreifftiol:

- (i) Ydych chi wedi cael y cyfle i weld cyflwyniad theatrig Cymraeg yn ystod y cwrs? Soniwch am y profiad gawsoch chi. Fwynheuoeh chi ai peidio? Rhowch resymau.
- (ii) Oes gormod o Saesneg yn cael ei siarad mewn dramâu, rhaglenni teledu a ffilmiau Cymraeg heddiw a gormod o recordiau Saesneg yn cael eu chwarae ar Radio Cymru? Rhowch resymau am eich barn.

B. Trafod ffilm - Hedd Wyn (Alan Llwyd)

Gall yr arholwr ofyn i'r ymgeiswyr ymdrin â phynciau megis y rhai a ganlyn:

- trafod cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd;
- trafod golygfeydd allweddol;
- manylu ynghylch y defnydd o lun a sain neu gerddoriaeth gefndirol;
- trafod bwriadau'r awdur a'r cynhyrchydd;
- trafod themâu a geir yn y ffilm;
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith.

Bydd rhyddid gan ymgeiswyr gyfeirio at ffilm(iau)/dramâu eraill ac at lenyddiaeth a ddarllenwyd. Dylid hyfforddi ymgeiswyr i ddyfynnu a defnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth yn briodol.

Trafod Ffilm

Hedd Wyn (Alan Llwyd)

Grŵp o dri gydag arholwr allanol:

Bydd angen gwybodaeth fanwl am y ffilm er mwyn gallu:

- trafod cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd, mynegi hoffter/diffyg hoffter gan roi rhesymau
- trafod y plot/stori gan sôn am rai o'r digwyddiadau cyffrous/doniol/trist/dramatig gan gyfeirio at enghreifftiau a mynegi barn
- trafod y defnydd o hiwmor/tristwch
- trafod y defnydd o wrthgyferbyniad
- trafod y defnydd o eironi
- trafod gwrthdaro yn y ffilm
- trafod y defnydd o symbolaeth
- manylu ynghylch y defnydd o lun, sain a cherddoriaeth yn y ffilm
- trafod y themâu a geir yn y ffilm
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith
- cydadweithio ag eraill
- ymateb i gyfraniadau eraill a holi cwestiynau
- ymresymu'n berthnasol
- crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n drefnus
- datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus
- defnyddio dyfyniadau'n bwrpasol
- cyflwyno a chynnal dadleuon

Cwestiynau enghreifftiol yn yr Arholiad Llafar

Y cymeriadau a'u datblygiad:

Disgrifiwch gymeriad Ellis a'i berthynas â chymeriadau eraill y ffilm.

Gellid disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at berthynas Ellis â'r canlynol:

- ei rieni
- ei frawd Bob
- ei gariadon
- ei gyd filwyr ar faes y gad
- y gweinidog.

Beth ydy agwedd Ellis at y rhyfel cyn iddo ymuno â'r fyddin?

Ydy cymeriad Ellis yn datblygu yn y ffilm? Sut?

Plot/Stori'r Ffilm

Yn fras adroddwch stori'r ffilm.

Pa dechnegau penodol a ddefnyddiwyd i adrodd stori'r ffilm? Oedden nhw'n effeithiol?

Gellid disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at:

- y defnydd o lif yr ymwybod
- cyfnod y ffilm yw'r oriau y mae Ellis yn gorwedd ar faes y gad rhwng byw a marw
- y saethiadau agos o wyneb Ellis yn ystod y cyfnod hwnnw
- yr ôl-fflachiadau o fywyd Ellis wrth iddo orwedd ar faes y gad

Disgrifiwch yr olygfa ar faes y gad pan laddwyd Ellis.

Pa olygfeydd sydd wedi gwneud argraff arnoch pan oedd Ellis yn byw yn Nhrawsfynydd? Pam?

Pa olygfeydd sydd wedi gwneud argraff arnoch pan oedd Ellis yn y fyddin? Pam?

Y cyfnod a'r lle

Sut ddarlun a gawn o Drawsfynydd ar ddechrau'r ganrif?
Trafodwch ddylanwad y rhyfel ar Drawsfynydd.

Gellid disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at:

- y milwyr yn y gweryll ym Mronaber
- y tensiwn rhyngddynt a rhai o'r trigolion
- y cyfarfod recriwtio
- y tensiwn rhwng teuluoedd y bechgyn a aeth i'r rhyfel a'r rhai nad aeth.

Disgrifiwch fywyd a'r ffordd o fyw ar aelwyd yr Ysgwrn.
Disgrifiwch fywyd ar faes y gad.

Y defnydd o hiwmor/tristwch/eironi/symbolaeth

Oes enghreifftiau o'r uchod yn y ffilm? Dewiswch enghreifftiau a siaradwch amdanynt gan ddangos eu pwysigrwydd i ddatblygiad y ffilm/neges y ffilm. Beth yw eu pwrpas yng nghynllun y ffilm?

Gellid disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at:

- Y groes
- torri ffenestr y capel
- canu Myfanwy a'r ymosodiad
- yr ymarfer pidog
- Y Beibl dros y galon
- cyrff yr Almaenwyr/Cymry/Saeson yn gymysg mewn marwolaeth
- trafod nodweddion Almaenwyr
- cystadleuaeth yr eisteddfod – 20 peint o gwrw, VD a VC
- Dyma Gariad fel y Moroedd/When this Bloody War is Over.

Y defnydd o wrthgyferbyniad yn y ffilm

Oes enghreifftiau o wrthgyferbyniad yn y ffilm? Ble? Beth yw eu pwrpas? Ydyn nhw'n llwyddo? Beth ydy eich ymateb personol i'r gwrthgyferbyniadau?

Gellid disgwyl i'r ymgeiswyr gyfeirio at:

- yr agoriad –Eisteddfod Penbedw a'r brwydro ar faes y gad
- Steddfod Pwllheli – cadeirio Ellis, "A Oes Heddwch?"/ Pilkem Ridge
- Hedd Wyn yn darllen/creu englyn
- Ar lan yr afon gyda Lizzie / "Y Saeson diawl".
- Y canu yn y dafarn
- Ar leave yn yr Ysgwrn yn trafod yr awdl gyda'i dad / "Gwae fi fy myw ...".

Gwrthdaro yn y ffilm

Oes enghreifftiau o wrthdaro yn y ffilm? Ble? Rhwng pwy a phwy? Beth ydy pwrpas y gwrthdaro? Beth ydy eich ymateb personol i'r gwrthdaro?

Gellid disgwyl i'r ymgeiswyr gyfeirio at:

- ddau ddiwylliant
- dwy iaith a dwy genedl
- ar lefel personol - ar yr aelwyd
- milwyr a phobl gyffredin – e.e.y tribiwnlys.

Y themâu yn y ffilm

Beth ydy themâu y ffilm? Beth ydy eich ymateb personol i'r thema (*penodol*)/themâu?

Gellid disgwyl i'r ymgeiswyr gyfeirio at:

- Y gwrthdaro rhwng dau ddiwylliant, dwy iaith a dwy genedl
- Rhyfel a Heddwch
- Y gwâr a'r anwar
- Rhagrith a chrefydd
- Gwrthdaro o fewn y teulu
- Agwedd tuag at y Cymry.

Dylid osgoi cadw'n rhy gaeth at y cwestiynau hyn gan mai procio'r ymgeiswyr i gyfeiriadau penodol yw eu pwrpas ar adegau hesb neu wrth newid cyfeiriad sgwrs neu wrth geisio denu ymateb/ymateb dyfnach gan yr ymgeiswyr.

C.Trafod pwnc sy'n deillio o'r ffilm

Bydd yr arholwr hefyd yn gofyn i'r ymgeiswyr ymhelaethu ar y pynciau/themâu sy'n deillio o'r ffilm gan ymateb yn ôl y gofyn.

Cwestiynau enghreifftiol

- (i) Mae safle'r ferch mewn cymdeithas wedi newid erbyn heddiw. Ydy e wedi newid digon neu ydy e wedi newid gormod?
- (ii) Roedd Hedd Wyn yn dipyn o arwr yn ei ddydd. Pwy yw arwyr yr oes bresennol? Ydych chi'n cytuno eu bod nhw'n haeddu bod yn arwyr?

Pynciau eraill:

- Cymdeithas glos cefn gwlad wedi diflannu am byth;
- Manteision perthyn i deuluoedd mawr;
- Mae'r Cymry'n dal i edrych i'r gorffennol am ysbrydoliaeth;
- Mae diwylliant Cymraeg wedi ei anelu at bobl ganol oed.

Bydd gan CBAC yr hawl i newid y ffilm a astudir. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

CYMRAEG: AIL IAITH CA2

GWAITH CWRS YSGRIFENEDIG

(Asesiad Mewnol)

CANLLAWIAU I ATHRAWON

Y Dasg

Llunio Pecyn ar **un** o'r canlynol:

- ardal benodol
- elfen gymdeithasol
- elfen ddiwylliannol
- elfen alwedigaethol
- elfen hanesyddol
- elfen wleidyddol

Gall y testun a ddewisir fod o ddiddordeb lleol neu genedlaethol, yn draddodiadol neu'n gyfoes ei apêl.

Canllawiau i'r Dasg

Bydd y Pecyn yn canolbwyntio ar, ac yn cyflwyno i'r darlennydd elfennau o'r testun y mae'r ymgeisydd wedi ymddiddori ynddynt gan gynnwys sylwadau personol a pherthnasol wrth wneud hynny. Wedi darllen y gwaith dylai'r darlennydd fod yn deall y testun dan sylw ac yn gwybod am agwedd yr ymgeisydd tuag at y testun.

Rhaid i'r Pecyn Gwybodaeth gynnwys o leiaf **4** darn estynedig o'r ffurfiau canlynol:

- adroddiad papur newydd
- erthygl i gylchgrawn
- portread
- stori/hanesyn
- sgwrs
- llythyr
- dyddiadur.

Rhaid i **1** darn gael ei gwblhau fel tasg o dan amodau arbennig.

Yn ychwanegol at hyn, dylid cynnwys deunyddiau ychwanegol fel holiadur, deunydd cyhoeddusrwydd a negeseuon e-bost.

- Rhaid i'r testun fod yn Gymreig.
- Dylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno mewn arddull bersonol gyda'r ymgeisydd yn cyflwyno ei safbwynt ei hun yn ei eiriau ei hun.
- Disgwylir gweld ôl ymchwil, dadansoddi, cymharu a dewis a dethol yn y gwaith ond gyda gogwydd bersonol yr ymgeisydd yn llywodraethu.
- Dylai unrhyw luniau/mapiau/atgyhyrchiad llunyddol gael eu defnyddio'n briodol, felly hefyd unrhyw ddyfyniadau.
- Rhaid i'r pecyn cyfan fod rhwng 2000 a 3000 o eiriau. Dylai hyn gynnwys 1 darn o ysgrifennu rhwng 500 - 700 o eiriau wedi ei gwblhau fel tasg o dan amodau arbennig. Ni ddylid ail ddrafftio'r gwaith ar unrhyw gyfrif.
- Rhaid i'r dasg o dan amodau arbennig gael ei chwblhau o fewn 2 awr yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr ymgeiswyr weithio ar weddill y pecyn yn y dosbarth ac/neu yn y cartref.
- Disgwylir gweld penawdau ac is-benawdau yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithiol wrth drefnu'r gwaith, ac wrth gyflwyno elfennau o fewn y testun.
- Dylid caniatáu i'r ymgeisydd drafod cynnwys y pecyn gyda'r athro/athrawes a chynhyrchu'r gwaith ar brosesydd geiriau.
- Caniateir defnyddio geiriaduron, cyfeirlyfrau, testunau llenyddol a gweledol ac unrhyw ddogfennau/cyfryngau perthnasol eraill.
- Rhaid cynnwys blaendudalen yn nodi cynnwys ac ôl-dudalen yn nodi unrhyw lyfryddiaeth a ddefnyddiwyd.

CANLLAWIAU ASESU MEWNOL

Anfonir sampl o asesiad mewnol y ganolfan at y safonwr allanol erbyn dyddiad a bennir ar ddechrau tymor yr haf ym mlwyddyn y cwrs.

Dylid cynnwys unrhyw ddeunyddiau symbylus a roddwyd i'r ymgeisydd. Dylid nodi unrhyw ragbaratoi ar ran yr ymgeisydd ei hun ac unrhyw gymorth/ arweiniad a roddwyd gan yr athro/athrawes. Dylai athrawon nodi cywiriadau a sylwadau ar y sgrïptiau. Ni ddylid ail ddrafftio'r gwaith ar unrhyw gyfrif.

Bydd gofyn nodi'r dyddiad y cyflwynwyd y dasg ac unrhyw nodiadau/sylwadau perthnasol ar gyfer y safonwr megis sut y cafodd y dasg ei chyflawni ac unrhyw ddeunydd cyfeiriol a ddefnyddiwyd.

Caiff y gwaith ei farcio pan gyflwynir ef i'r athro/athrawes yn ystod y cwrs. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif roi marc am waith fydd wedi cael ei gymhwyso. Dylai'r athro/athrawes adael ei gywiriadau a'i sylwadau a gyfeiriwyd at yr ymgeisydd ar dasgau; ni ddylai ymgeisydd ailysgrifennu tasg ffolio na'i chywiro wedi i'r athro/athrawes ei chywiro.

Dylid caniatáu 2 awr ar gyfer cwblhau'r dasg a wneir o dan amodau arbennig. Dylid sicrhau bod safon y tasgau a osodir yn gymesur. "Amodau arbennig" yw amodau tebyg i rai arholiad cyffredin. Ni chaiff ymgeiswyr ymgynghori â'i gilydd. Caniateir mwy o amser i ddisgyblion ag anghenion arbennig. Dylid rhoi rhybudd o wythnos i ymgeiswyr cyn iddynt gyflawni'r dasg o dan amodau arbennig. Caniateir defnyddio geiriadur neu ddeunydd pwrpasol e.e. pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol wrth gyflawni'r dasg.

Rhoddir cyfarwyddyd pellach i athrawon neu ganolfannau unigol pan na fydd safonwyr yn hapus bod canolfannau wedi cwrdd â gofynion gwaith cwrs CBAC.

Lle y cyfyd problem sylweddol bydd CBAC yn:

- (i) cymeradwyo tasgau asesiad mewnol pellach ac unrhyw gynlluniau marcio a gynigir gan y ganolfan;**
- (ii) cymeradwyo a monitro trefniadau'r ganolfan ar gyfer marcio a safoni gyhyd ag y tybir sydd yn angenrheidiol.**

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o 40.

Nodir isod rai elfennau y dylai athrawon eu hystyried wrth farcio'r tasgau.

- ysgrifennu'n gywir, yn eglur ac yn raenus gan arddangos ystod o adnoddau iaith; defnyddio gwybodaeth o ramadeg yn effeithiol mewn amryfal gyd-destunau;
- dangos ymwybyddiaeth o wahanol gyweiriau iaith a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa.

Trefn Safoni Asesiad Mewnol

- Cynhelir cynhadledd ar gyfer safonwyr yr asesiad mewnol cyn gynted â phosib ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn y gwaith.
- Ni fydd y safonwyr yn graddoli marciau ysgolion. Yn hytrach, ar ôl safoni anfonir ffurflen farciau pob ysgol, ynghyd â thaflen sylwadau a gwaith, sydd yn nhŷb y safonwyr yn enghreifftio marc na ddylid ei raddoli a marc y dylid ei raddoli, at y Prif Arholwr.
- Gan y Prif Arholwr/Swyddog CBAC yn unig y bydd yr hawl i raddoli'n derfynol.

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

CYMRAEG: AIL IAITH CA3

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

(Papur Ysgrifenedig)

CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL

(Gall ffurf a fformat y cwestiynau newid o bryd i'w gilydd)

(2 awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

Ni chaniateir defnyddio copïau o farddoniaeth na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio 1 awr ar Adran A ac 1 awr ar Adran B.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

ADRAN A

Defnyddio'r Iaith

1. Lluniwch frawddegau (**un frawddeg yr un**) i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]
 - (i) ar ei ben ei hun
 - (ii) dro ar ôl tro
 - (iii) cyn bo hir
 - (iv) codi ofn ar
 - (v) rhag ofn
 - (vi) lladd amser
 - (vii) hun
 - (viii) hyn
 - (ix) Cymru
 - (x) Cymry

2. Ailysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi eu tanlinellu. [20]
 - (a) Ydych chi'n credu bod mae gormod o hen ffilmiau ar y teledu?
 - (b) Roedd fi wedi gorffen y gwaith cyn i fi fynd allan.
 - (c) Mae'n well da fi/gen i edrych ar y teledu na gwranddo i'r radio.
 - (ch) Wyth blwyddyn yn ôl cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Gogledd.
 - (d) Dylid pobl ifanc wybod am beryglon cyffuriau.
 - (dd) Ydych chi wedi gweld y bobl pwysy wedi symud i'r tŷ drws nesaf?
 - (e) Aeth torf fawr o bobl i'r stadiwm i gweld y gêm.
 - (f) Mae'n nhw'n dweud bod mwy o droseddu nawr nag o'r blaen.
 - (ff) Roedd y myfyrwyr ddim yn gallu ateb pob cwestiwn.
 - (g) Pwy lyfr ydych chi'n ei ddarllen nawr?

3. Gan ysgrifennu'n bersonol, disgrifiwch unrhyw dro pan oeddech chi wedi **diflasu**. **Cofiwch ddisgrifio'r profiad yn ofalus.** Ysgrifennwch tuag un ochr tudalen. [20]

ADRAN B

Barddoniaeth

4. Darllenwch yn ofalus y penillion canlynol o'r gerdd *Y Ffatri'n Cau* gan Gwyn Thomas ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Dyfodol a dôl mewn ardal dlawd:
Y mab yn penderfynu mynd i'r fyddin;
Y ferch yn chwilio am rywbeth yn Birmingham,
Lle mae ganddo yntau chwaer.

Tai ar werth, siopau'n cau
Ac yn mynd rhwng y cŵn a'r brain a'r llafnau yna
Nad oes ganddyn nhw bleser mewn dim
Ond mewn hel tafarnau a dinitrio a malu.
Ffenestri'r capel, hyd yn oed, wedi eu pledu
A rhywrai wedi bod yno'n paentio, ar y waliau,
PUNKS RULE O.K. a rhegfeydd.

- (a) Gosodwch y penillion uchod yn eu cyd-destun. Amlinellwch yr hyn a ddywedir gan y bardd yn union cyn ac ar ôl y penillion hyn. Cofiwch gyfeirio hefyd at gynnwys y penillion hyn. [20]
- (b) Nodwch nodweddion arddull y penillion uchod gan gofio nodi mesur y gerdd. Gallwch gyfeirio at dechnegau megis delweddau, cyflythreniad, iaith, hyd y llinellau ag ati. Yn eich barn chi beth ydy pwrpas ac effaith y technegau hyn? [20]
- (c) Rhowch eich ymateb personol i'r gerdd hon a'i phwnc. Ni ddylid ailadrodd y cynnwys na thrafod yr arddull. [20]

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

CYMRAEG: AIL IAITH CA4

Y DDRAMA A LLAFAREDD

(Arholiad Llafar)

NODIADAU I ATHRAWON A CHWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL

(Tua ½ awr)

Nodiadau i Athrawon

- Asesiad allanol yw hwn. Er hynny dylai athrawon asesu cyrhaeddiad disgybl yn fewnol yn ystod y flwyddyn.
- Bydd yr arholwr allanol yn ymweld â phob canolfan yn ystod tymor yr haf. Defnyddir asesiad y ganolfan fel canllaw i gynorthwyo'r arholwr, ond gan yr arholwr yn unig y bydd yr hawl i bennu marciau terfynol yr ymgeiswyr.
- Arholir yr ymgeiswyr mewn parau/grwpiau heb fod yn fwy na thri ymgeisydd. Dewisir y grwpiau yn ôl gallu'r ymgeiswyr neu ddoethineb yr arholwr. Lle nad oes ond un ymgeisydd arholir ef yn unigol gan yr arholwr. Lle ceir grwpiau o dri bydd yr arholiad yn parhau am tua thri chwarter awr. Dyfernir marciau allan o 45.

Swyddogaeth yr arholwr

A. Cynhesu'r disgyblion trwy drafod y diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu trafod y meysydd canlynol:

- y theatr
- darlledu ar y we fyd eang
- ffilm
- newyddiaduraeth Gymraeg e.e. cylchgronau, papurau bro, Y Cymro, Golwg, Lingo.

Dylid cyflwyno'r uchod yn rheolaidd i'r ymgeiswyr a sicrhau bod pob un yn gallu mynegi barn am eu cynnwys a'u diwyg gan fanylu ar erthyglau a astudiwyd ganddynt.

Cwestiynau enghreifftiol:

- (i) Pa gylchgrawn neu gylchgronau Cymraeg fyddwch chi'n eu darllen yn rheolaidd? Ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n ddi-ddorol? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwyntiau.

B. Trafod drama

Saunders Lewis: *Siwan*

- sbarduno trafodaeth
- hybu newid cyfeiriad y drafodaeth
- gofyn i ymgeisydd gynnig tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl;
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael eu hybu i gyflawni eu potensial.

Wrth asesu'r ymgeiswyr yn yr Arholiad Llafar ystyrir eu gallu i lefaru'r iaith gywir a graenus yn y cywair priodol gan arddangos gwybodaeth benodedig o'r ddrama a'i cefndir, gwranddo'n astud ar eraill, codi cwestiynau, datblygu safbwyntiau, rhyngweithio a dod i gasgliadau.

C. Asesiad Synoptig

Bydd yr arholwr hefyd yn gofyn cwestiwn i'r ymgeiswyr a fydd yn mynnu eu bod yn arddangos ac yn cymhwyso dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y Gymraeg drwy gyfuno a chyd-gysylltu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pwnc. (**Asesiad Synoptig**)

Trafod Drama

Siwan (Saunders Lewis)

Grŵp o dri gydag arholwr allanol:

Bydd angen gwybodaeth fanwl am y ddrama er mwyn gallu :

- trafod cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd gan gyfeirio at enghreifftiau a mynegi barn
- dadansoddi'r defnydd o wrthgyferbyniad
- dadansoddi'r defnydd o eironi
- dadansoddi'r gwrthdaro yn y ddrama
- dadansoddi'r defnydd o symbolaeth
- manylu ynghylch themâu a geir yn y ddrama
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith
- cydadweithio ag eraill
- ymateb i gyfraniadau eraill a holi cwestiynau
- ymresymu'n berthnasol
- crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n drefnus
- datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus
- defnyddio dyfyniadau'n bwrpasol
- cyflwyno a chynnal dadleuon

Bydd rhyddid gan ymgeiswyr gyfeirio at ddramâu eraill ac at lenyddiaeth a ddarllenwyd. Dylid hyfforddi ymgeiswyr i ddyfynnu a defnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth yn briodol.

Enghreifftiau o gwestiynau posibl gan gynnwys rhai awgrymiadau ar sut i ymateb iddynt.

1. Ydych chi'n cytuno bod y ddrama *Siwan* yn delio â themâu sydd yn bwysig i bob oes?

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- *Y briodas a'r berthynas rhwng Siwan a Llywelyn Fawr*
- *Y berthynas rhwng Siwan a Gwilym Brewys*
- *Anffyddlondeb Siwan i Llywelyn*
- *Y dyfyniad: "Does dim allwedd i'r galon, Does neb ar y ddaear yma'n deall ei gilydd"*
gan drafod unigrwydd hanfodol pobl.
- *Y cyfamodi a fu rhwng Siwan a Llywelyn ar ddiwedd y ddrama*
- *Anallu Llywelyn i fynegi ei deimladau*

2. Mae llawer o broblemau'n wynebu'r cymeriadau yn *Siwan* ond ydych chi'n cytuno nad yw'r ddrama yn cynnig atebion i'r problemau hynny?

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- *Enghreifftiau penodol o gymeriadau'r ddrama'n wynebu argyfwng*
- *Ai chwant yn unig a gyffroai Siwan neu oedd hi'n effro i'w chyfrifoldebau fel gwraig?*
- *Y fenter ym mherthynas Siwan a Gwilym Brewys*
- *Ymateb Llywelyn - fel dyn yn hytrach na fel gwleidydd – yn gam neu'n gymwys?*
- *Oes gennym hawl i ddisgwyl atebion mewn drama?*

Asesiad Synoptig

Cwestiwn enghreifftiol:

Ydych chi'n cytuno mai un o themâu pwysicaf y ddrama *Siwan* yw safle'r ferch mewn cymdeithas? Trafodwch hyn gan gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunnyddiaeth a wlywyd gennych sydd yn ymdrin â'r un pwnc.

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

CYMRAEG: AIL IAITH CA5

Y STORI FER A THRAWSIEITHU

(Papur Ysgrifenedig)

CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL

(Gall ffurf a fformat y cwestiynau newid o bryd i'w gilydd)

(1 $\frac{3}{4}$ awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r testunau gosod na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol.

Awgrymir eich bod yn treulio $\frac{3}{4}$ awr ar Adran A ac 1 awr ar Adran B.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

ADRAN A

Y Stori Fer

- 1 (i) Dadansoddwch gymeriad Robyn yn y stori *Pe bai'r Wyddfa i Gyd yn Gaws* gan Mihangel Morgan gan gyfeirio at y berthynas rhyngddo fe a'r cymeriadau eraill. [20]
- (ii) Dadansoddwch arddull y **darn isod** gan nodi unrhyw dechnegau y mae'r awdur yn eu defnyddio. **Dylech gyfeirio at enghreifftiau penodol yn y darn.** [20]

Darllenodd Robyn y fwydlen â'i drwyn. Er ei fod yn gwisgo sbectol trwchus iawn, roedd e'n ofnadwy o fyr ei olwg. Wrth iddo graffu ar y geiriau bach sylodd Wendy arno. Edrychai'n debyg i wadd anferth â'i lygaid gwan, ei ddwylo tew pinc a'i ewinedd hir brwnt crafanglyd.

Daeth un o'r gweinyddion atynt o gornel y bwyty.

- Beth wyt ti'n mynd i'w gael, Wendy?
- Dw i'n mynd i gael y cawl llysiau i ddechrau ac omled a salad fel prif saig.
- Dyna i gyd?
- Ie. Oes gwahaniaeth 'da ti, Robyn?
- Nag oes. Ond dathlu 'yn ni cofia. Felly fe gymera i'r corgimychiaid ac afocado a bara garlleg a myshrwms i ddechrau a chimwch gyda llysiau a salad a sglodion tatws ar yr ochr. A be gymerwn ni i'w yfed – wel siampên wrth gwrs!
- Dim i fi, diolch Robyn.
- Ti'n gallu bod yn boen yn y pê-n-ôl wethiau, Wendy; ryn ni'n dathlu, cofia.
- O, iawn'te, fe gymera i siampên hefyd.
- Sdim eisiau i ti orfodi dy hun er mwyn 'mhlesio i.
- Robyn. Dw i'n eithaf hapus i yfed siampên i ddathlu dy ddyrchafiad di, iawn?
- Iawn. Sdim eisiau i ti droi'n gas chwaith. Gobeithio na fydd y bwyd' ma'n hir. Dw i'n llwgu.

Ar hynny cyrhaeddodd y bwyd a gosododd y gweinydd fowlen o gawl o flaen Wendy a gwydryn hir yn llawn o gorgimychiaid pinc, yn goesau ac yn deimlyddion tenau ac yn llygaid bach duon i gyd, o flaen Robyn.

Roedd Wendy yn dawel, wedi pwdu. Gwyliodd Robyn yn rhwygo cyrff y corgimychiaid ac yn taflu eu canol bach noeth i lawr ei lwnc, un ar ôl y llall, gan adael pentwr o sgerbydau bach oren ar y plât.

ADRAN B**Trawsieithu**

2. Darllenwch yr erthygl canlynol sy'n trafod goryfed ymhlith plant a phobl ifanc

Ysgrifennwch llythyr yn Gymraeg (tua 350 o eiriau) at olygydd cylchgrawn Cymraeg yn ymateb i'r erthygl. Wrth ysgrifennu'r llythyr cofiwch ddefnyddio gwahanol batrymau brawddegol a chynnwys y priod-ddulliau rydych wedi eu dysgu yn ystod y cwrs.

[40]

Gan gyfeirio at yr wybodaeth sydd yn yr erthygl dylech drafod:

- (a) peryglon goryfed;
 (b) eich ymateb chi i'r problem o oryfed ymhlith pobl ifanc.

Ni ddylid cyfieithu'r testun.

binge drinking	goryfed
researcher	ymchwilydd
casualty units	unedau damweiniau
survey	arolwg
Action on Addiction	Gweithredu yn erbyn dibyniaeth
accident and emergency	damwain ac argyfwng
adolescents	pobl ifanc
development of the nervous and reproductive systems	datblygiad y systemau nerfau ac atgenedlu
alcohol poisoning	gwenwyno alcohol
unsupervised	heb eu harolygu
resuscitation room	ystafell adfywio
unconscious	anymwybodol
prevention strategies	strategaethau gwahardd
to link	cysylltu
breast	y fron
repeatedly	yn rheolaidd

Six year olds 'binge drinking'

Children as young as six have needed hospital treatment after going on drinking binges, report hospital doctors.

School summer holidays in particular bring a number of cases into casualty units all over the country.

A survey by the BBC found that doctors and nurses who work in Accident and Emergency Units believe that the average age of binge drinking children is falling.

During the summer holidays, on average, doctors estimated that they saw 24 cases of alcohol poisoning a month in under 18 year olds.

In one area in the country, staff reported seeing almost 100 cases a week during holiday periods and blamed a "holiday atmosphere" with children left unsupervised.

Mr John Heyworth, President of the British Association of Accident and Emergency Medicine, said his young patients fell into two categories – those who were having one experiment with alcohol, and those who returned again and again with the same problems. He said: "They are ending up in resuscitation room and tending not to learn from the situation. And that's very worrying."

He added, "Often they are very sick indeed – they've drunk so much that they are unconscious and vomiting, which is a very dangerous mix. Children will be dying as a result of alcohol binge drinking unless we take some action now"

There is already concern about alcohol consumption among young adults, which is rising fast in some groups, in particular women.

Some studies have linked binge drinking to the development of breast cancer in women.

Dr Patricia Conrod, a researcher for Action on Addiction, said: "The average amount of alcohol consumed per week by 11-15 year olds doubled between 1990 and 2000."

"Heavy drinking is particularly dangerous for adolescents, as they are not fully developed, and their bodies are unable to cope with large quantities of alcohol. Research has suggested that drinking may seriously harm the development of the nervous and reproductive systems."

"Children and teenagers need to be better targeted by prevention strategies, particularly those young people who are repeatedly admitted to hospital for emergency treatment for binge drinking"

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

CYMRAEG: AIL IAITH CA6

DEFNYDDIO'R IAITH A GWERTHFAWROGI BARDDONIAETH

(Papur Ysgrifenedig)

CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL

(Gall ffurf a fformat y cwestiynau newid o bryd i'w gilydd)

(1¾ awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1 awr ar Adran B.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

ADRAN A

Defnyddio'r Iaith

1. (i) Lluniwch frawddegau (**un frawddeg yr un**) i ddangos yn eglur ystyr a defnydd y ffurfiau berfol canlynol: [18]
- (a) Pryna i
 - (b) Cynhelir
 - (c) Darllenwn ni
 - (ch) Agorwyd
 - (d) Bydda i wedi paratoi
 - (dd) Roedden nhw wedi gweld
- (ii) Lluniwch frawddegau (**un frawddeg yr un**) i ddangos yn eglur ystyr a defnydd y cymalau canlynol: [12]
- (a) Pe bawn i'n gallu
 - (b) Os bydd hi'n bwrw glaw
 - (c) Er mwyn gorffen y gwaith
 - (ch) Dyna'r bachgen sy'n
- (iii) Cyfieithwch y brawddegau canlynol: [15]
- (a) Thank her for the gift
 - (b) I did not see him yesterday
 - (c) Ask your friend about him
 - (ch) The old church is open on Sunday
 - (d) I read two novels last week

ADRAN B

Barddoniaeth

2. Darllenwch yn ofalus y gerdd hon ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

NID WELSH WYF FI OND CYMRO

gan Gwyn Edwards

Nid wyf eisiau bod yn Welshman,
yn estron yn fy ngwlad.
Nid wyf eisiau siarad Welsh,
gwell gennyf y Gymraeg.
Nid Welsh yw cenedl y Cymry,
nid Welsh yw ein hiaith,
ni allaf ganu tenor
na chwarae rygbi chwaith.
Rwyf wedi 'laru ar estroniaid yn fy nhrin fel sioe mewn ffair.
"Oh, Welshman y'ch chi?
Ydy'ch tad yn gweithio lawr y pwll?
A ydych yn defnyddio'r iaith'na?
Beth yw ei henw hi?
Oh, rhaid i mi glywed chi'n dweud enw'r lle'na yn Sir Fôn,
CLANC FFER be'di enw fo?"

Felly cadwch eich rygbi iwnion
a chadwch eich Tiger Bay.
Nid yw'r Cymro hwn am fod yn 'model Welshman' i neb.

estron – foreigner;
gwell gennyf – I prefer;
chwaith – either;
'laru – to be weary of;
trin – to treat;
sioe – show;
pwll-pit;
CLANC FFER- Llanfair Pwllgwyn gwyll;
rygbi iwnion- rugby union;
Tiger Bay- ardal y dociau Caerdydd.

- (a) Dadansoddwch gynnwys y gerdd uchod gan fanylu ar agwedd y bardd tuag at Gymru a Chymreictod. [20]
- (b) Dadansoddwch arddull y gerdd hon ac esboniwch resymau'r bardd am ddefnyddio'r technegau hyn. [20]
- (c) Manylwch ar brif thema'r gerdd hon trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd a/ neu lonyddiaeth a wylwyd gennych sydd yn ymdrin â'r un thema. [35]

		Amcanion Asesu (Gwirioneddol)			Cyfanswm y Papur	Synoptig (✓)	ACY (✓)
		AA1	AA2	AA3			
CA1		15 %	5%				
	Trafod y cyfryngau	15					
	Hedd Wyn	15	15				
	Thema	15					
	CYFANSWM	45	15		60		
		AA1	AA 2	AA 3			
CA2				15%			
				40			
	CYFANSWM			40	40		
		AA 1	AA 2	AA 3			
CA3			5%	10%			
	Gramadeg			60			
	Barddoniaeth cwestiwn 1, 2		30	10			
	Cwestiwn 3		10	10			
	CYFANSWM		40	80	120		
		AA 1	AA 2	AA 3			
CA 4		10%	5%			✓	
	Diwylliant cyfoes amlgyfrwng	10					
	Siwan	10	10				
	Synoptig	10	5				
	CYFANSWM	30	15		45		
		AA 1	AA 2	AA 3			
CA5			5%	15%		✓	
	Y stori fer Cwestiwn 1, (i), (ii)		20	20			
	Trawsieithu			40			
	CYFANSWM		20	60	80		
		AA 1	AA 2	AA3			
CA6			5%	10%		✓	
	Gramadeg			45			
	Barddoniaeth cwestiwn 1, 2		20	20			
	Cwestiwn 3		20	15			
	CYFANSWM		40	80	120		

CYMRAEG: AIL IAITH CA1

Y FFILM A LLAFAREDD

(Arholiad Llafar)

CYNLLUN MARCIO

		AA1	AA2
Adran A	Trafod y cyfryngau	15	
Adran B	Trafod y ddrama	15	15
Adran C	Pwnc yn deillio o'r ffilm <i>Hedd Wyn</i>	15	
	Cyfanswm	45	15

Bydd yr ymgeiswyr yn:

Gradd	AA1(45)	Gradd	AA2(15)
A Adran A 12-15 Adran B 12-15 Adran C 12-15	<ul style="list-style-type: none"> cydadweithio ag eraill yn hyderus arddangos blaengaredd wrth gynnal ac ymestyn trafodaeth yn ddigymell ymateb i gyfraniadau eraill yn llawn trwy gytuno/ anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau ymresymu'n berthnasol mynegi barn yn hyderus ac yn cefnogi'r farn honno trwy resymu craff cyfathrebu'n rhwydd ac yn hyderus ynganu'n gywir ac yn glir defnyddio cystrawen lafar naturiol gywir ac adnoddau iaith sicr yn briodol. 	A Adran B 12-15	<ul style="list-style-type: none"> arddangos gwybodaeth fanwl o'r ffilm cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio dyfyniadau addas lle bo hynny'n briodol crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos dealltwriaeth ohonynt trwy eu cyflwyno'n gywir a chydlynus cyflew syniadau a dadleuon yn glir ac yn rhesymegol arddangos dealltwriaeth gadarn o themâu'r ffilm gan ddadansoddi ac ymresymu'n ddeallus arddangos dealltwriaeth gadarn o dechnegau'r ffilm
B Adran A 11 Adran B 11 Adran C 11	<ul style="list-style-type: none"> cydadweithio'n dda ag eraill arddangos blaengaredd wrth gynnal trafodaeth ymateb i gyfraniadau eraill yn ddeallus wrth gytuno/ anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau ymresymu'n synhwyrol mynegi barn yn hyderus gan gefnogi'r farn honno a rhesymau perthnasol cyfathrebu'n rhwydd ynganu'n gywir ac yn glir defnyddio cystrawen lafar gywir ac adnoddau iaith priodol. 	B Adran B 11	<ul style="list-style-type: none"> arddangos gwybodaeth dda o'r ffilm cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio dyfyniadau addas crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir a chydlynus arddangos dealltwriaeth o themâu'r ffilm gan ymresymu'n ddeallus arddangos dealltwriaeth o dechnegau'r ffilm cyflew a datblygu'r prif syniadau a dadleuon yn drefnus, ac yn rhesymegol cyflwyno dadleuon deallus gan ymateb yn briodol

<p>C</p> <p>Adran A 9-10</p> <p>Adran B 9-10</p> <p>Adran C 9-10</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cydadweithio ag eraill yn effeithiol • dangos parodrwydd i gynnal sgwrs • ymateb i gyfraniadau eraill yn briodol wrth gytuno/ anghytuno a datblygu ambell waith ar y cyfraniadau • mynegi barn yn effeithiol ac yn cefnogi'r farn honno a thystiolaeth yn achlysurol • cyfathrebu'n ddiddorol • ynganu'n glir • gwneud defnydd da o amrywiaeth o adnoddau iaith 	<p>C</p> <p>Adran B 9 – 10</p>	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth helaeth o'r ffilm • cyflwyno tystiolaeth yn achlysurol gan gyfeirio at ambell olygfa berthnasol gan ddefnyddio ambell ddyfyniad/aralleiriad addas • crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth o brif themâu'r ffilm • arddangos dealltwriaeth o brif dechnegau'r ffilm • datblygu'r prif syniadau yn drefnus • cyflwyno dadleuon yn ddeallus
<p>D</p> <p>Adran A 8</p> <p>Adran B 8</p> <p>Adran C 8</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cydadweithio ag eraill, ond gyda mynegiant petrus/herciog ar adegau • cynnig sylwadau perthnasol • ymateb yn syml i gyfraniadau eraill • mynegi barn uniongyrchol yn glir • cytuno/anghytuno'n fras • cyfathrebu'n ddigonol i ateb gofynion y dasg • ynganu'n dderbyniol • dangos ymwybyddiaeth o ddulliau cyfoethogi mynegiant • ymdrechu i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau iaith 	<p>D</p> <p>Adran B 8</p>	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth o'r ffilm gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir • cyfeirio weithiau at olygfeydd perthnasol penodol gan ddefnyddio aralleiriad neu ddyfyniadau addas ar adegau • arddangos peth dealltwriaeth o brif themâu'r ffilm • arddangos peth dealltwriaeth o brif dechnegau'r ffilm • datblygu rhai syniadau er y bydd tueddiad i adleisio syniadau a barn eraill ac i ail adrodd y cynnwys • cyflwyno rhai dadleuon yn synhwyrol

<p>E</p> <p>Adran A 6-7</p> <p>Adran B 6-7</p> <p>Adran C 6-7</p>	<ul style="list-style-type: none"> • siarad ag eraill • cynnig rhai sylwadau elfennol iawn • ymateb yn foel i gyfraniadau eraill • mynegi barn uniongyrchol • mynegi cytundeb/ anghytundeb yn foel, gan amlaf heb resymau • cyfathrebu'n ddigonol i wneud eu hunain yn ddealladwy i'r aseswr • ynganu'n ddealladwy • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau sylfaenol • amrywio amserau a ffurfiau berfau ar adegau 	<p>E</p> <p>Adran B 6-7</p>	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth o gynnwys y ffilm trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • dangos tueddiad i ail adrodd cynnwys y ffilm • cynnwys rhai enghreifftiau o gyfeirio'n benodol at olygfeydd • cyfeirio'n fras at rai themâu penodol yn y ffilm • cyfeirio'n fras at rai technegau penodol yn y ffilm • cyflwyno dadleuon syml iawn
<p>U</p> <p>Adran A 0-5</p> <p>Adran B 0-5</p> <p>Adran C 0-5</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol Gradd E ar adegau'n unig. 	<p>U</p> <p>Adran B 0-5</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol Gradd E ar adegau'n unig.

CYMRAEG: AIL IAITH CA2
GWAITH CWRS YSGRIFENEDIG
(Asesiad Mewnol)

Bydd yr ymgeisydd yn:

Gradd	AA3 – Ysgrifennu
